



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar-lein am 7 y.h. ar Iau y 17^{eg} o Fedi 2026

Yn Bresennol

Iona Evans	Cadeirydd
Shelagh Fishlock	Ysgrifennydd
Amanda Skull	Trysorydd

Rhisiart ap Gwilym, Eirian Davies, John Griffith, Eurgain Jones, Gareth Wyn Jones, Hywel Madog Jones, Dominig Kervegant, Dafydd Lewis, Iwan Roberts, Alan Williams a Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion).

1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD

Cynigiodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb gan nodi ei bod yn dechrau tywyllu ac felly bod y gaeaf o'n blaen.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Duncan Brown, Dawi Griffiths, Rob Jones Elen Owen, Gwyn Roberts ac Elizabeth Roberts.

3. DERBYN COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWAITH A GYNHALIWDYD AR 21^{ain} MAI 2026

Cynigiodd Eirian Davies ac eiliodd Amanda Skull dderbyn cofnodion cyfarfod 21^{ain} Mai 2026 fel rhai cywir.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Awgrymodd y Cadeirydd drafod y materion yn codi o dan yr eitemau perthnasol yn yr agenda.

5. SYLWADAU'R CADEIRYDD AR EISTEDDFOD Y GARREG GLAS

Cyfeiriodd Iona Evans at adroddiad cynhwysfawr Cadeirydd y Pwyllgor Marchnata. Dywedodd ei bod cael sgwrs dros baned ar y stondin gyda'r rhan fwyaf o aelodau'r Pwyllgor Gwaith (PG). Tynnodd sylw at werthiant sylweddol o lyfrau ynglŷn â byd natur. Diolchodd i John Parry am helpu gosod y stondin ac i Hywel Madog a'i dîm am eu holl waith.

6. SIARADWYR POSIBL I EISTEDDFOD 2027

Awgrymwyd:-

Gareth Griffith a siaradodd ynglŷn â capiau cwyr yng Nghynhadledd Llandrindod
Hywel Griffiths, daearyddwr sydd yn ymchwilio afonydd, efallai i sôn am afon Dyfi
Ffion Mair Jones, awdur "Thomas Pennant: Cysylltiadau Cymreig"

Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r PG ystyried enwau arall er mwyn llunio rhestr derfynol yng nghyfarfod mis Tachwedd.

7. ADRODDIADAU'R SWYDDOGION A'R IS-BWYLLGORAU

i) Y Trysorydd (Gweler Adroddiadau PG Medi 2026)

Holodd y Cadeirydd ynglŷn â phroblemau wrth sefydlu debydau uniongyrchol gyda GoCardless. Esboniodd y Trysorydd fod rhai aelodau ag ofn bancio ar-lein a bod rhaid i'r rheini ddilyn linc i sefydlu mandad. Dywedodd ei bod yn ymchwilio problem yn achos ambell aelod gyda chyfrif Nationwide.

O ran casglu taliadau aelodaeth 2024/5 a 2025/6, dywedodd Amanda iddi fwriadu cysylltu ag aelodau ym mis Hydref pe bai taliadau dwy flynedd arnynt gan adael y gweddill tan fis Tachwedd. Mynegwyd ofn na fyddai pawb sydd wedi derbyn cylchgronau yn ystod y ddwy flynedd dan sylw yn fodlon gwneud ôl-daliad.

Dywedodd yr Ysgrifennydd Aelodaeth ei fod wedi ysgrifennu at aelodau heb gyfeiriad e-bost dyls yn y bas data ac yr oedd rhai wedi ymateb ond dychwelwyd chwe llythyr wedi'u marcio "Not known at this address".

Dywedodd y Trysorydd fod DU wedi'i sefydlu ar gyfer tanysgrifiadau 53 teulu a 119 unigolyn tra bod 50 teulu a 83 unigolyn oedd yn arfer talu drwy DU wedi methu â chofrestru gyda GoCardless hyd yn hyn.

Cytunwyd y byddai Dafydd Lewis yn parhau i geisio cysylltu ag aelodau yn y bas data tan tua diwedd mis Rhagfyr ond byddai rhaid tynnu enwau'r aelodau a oedd wedi methu â thalu erbyn dydd mis Ionawr oddi ar y rhestr ar gyfer dosbarthu cylchgronau fis Chwefror. Awgrymwyd rhoi neges ar dudalen Weplyfr y Gymdeithas ac ar y wefan yn rhybuddio aelodau i gysylltu os nad ydynt wedi derbyn neges ynglŷn â'r tâl aelodaeth.

Gofynnwyd i'r Trefnyddion sôn ar ddechrau teithiau am aelodau sydd anodd cysylltu â hwy a hefyd i anfon eu henwau at aelodau'r PG (**pwynt gweithredu**). Dywedodd Iwan ei fod yn meddwl bod y rhan fwyaf o aelodau sydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi talu'n barod ond bod mwy o broblem yn achos aelodau nad ydynt yn ymuno â theithiau cerdded.

Diolchodd y Cadeirydd i Amanda am ei gwaith gwyrrthiol wrth ddatrys problemau wrth drosglwyddo'r Drysoryddiaeth gan nodi iddi roi rhybudd y byddai'n ymddiswyddo ym mis Hydref 2027. Esboniodd y byddai'n ddymunol penodi Is-drysorydd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2026 a fyddai'n cymryd y Drysoryddiaeth yn CCB 2027. Dywedodd Amanda fod llawer o'r gwaith caled, yn enwedig sefydlu debydau uniongyrchol, wedi'i gwblhau ac felly dylai swydd ei holynydd fod yn haws. Ychwanegodd ei bod yn dal i ymchwilio trosglwyddo cyfrif y Gymdeithas i fanc amgen oherwydd anawsterau gyda HSBC. Ni chafwyd enwebiad. Cytunwyd i roi apêl ar Weplyfr yn sôn am yr holl swyddau gwag (**pwynt gweithredu**).

Gofynnodd y Trysorydd am gymeradwyaeth i ddefnyddio'r un archwilwyr â'r llynedd a chytunwyd yn ddiwrthwynebiad.

ii) Yr Ysgrifennydd Aelodaeth (Gweler Adroddiadau)

Dywedodd Dafydd Lewis fod 20 aelod wedi ymuno â'r Gymdeithas yn Eisteddfod y Garreg Las a llawer wedi adnewyddu eu haelodaeth.

Llongyfarchodd i Amanda ar ei gwaith caled ers dod yn Drysorydd.

Esboniodd fod y cwmni Bottomline wedi haneru taliadau misol y Gymdeithas tan ddiwedd ein cytundeb, Tynnodd y Trysorydd sylw bod GoCardless yn codi ffi os bydd casglu taliad drwy DU yn methu.

Soniodd Dafydd am newid y cofnodion aelodaeth. Esboniodd na fyddai angen cadw manylion banc ac awgrymodd gofnodi blwyddyn geni yn unig, yn hytrach na dyddiad geni llawn. Dywedodd ei fod yn ystyried cadw copi o'r rhestr aelodaeth ar "Drive".

iii) Is-bwyllgor Marchnata (gweler Adroddiadau)

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Marchnata (PM) i Gareth, Shelagh a Siân Bowen am eu gwaith yn gysylltiedig â'r Eisteddfod. Cytunwyd y byddai'r Ysgrifennydd yn anfon llythyr o ddiolch at Siân (**pwynt gweithredu**). Cytunodd Gareth i ofyn a fyddai Siân yn fodlon cael ei henwebu ar gyfer y PG (**pwynt gweithredu**).

Dywedodd Hywel Madog iddo anfon e-bost at y darlithydd.

Cododd Hywel Madog gwestiwn ynglŷn â'r nifer o ffurflenni ymaelodi a gwblhawyd yn yr Eisteddfod a chytunodd Dafydd i fwrw golwg arall (**pwynt gweithredu**). Nodwyd bod angen rhoi fersiwn diweddaraf y ffurflen ar y wefan (**pwnt gweithredu**).

Dywedodd Hywel Madog fod y trefniadau ar gyfer Eisteddfod eleni'n foddhaol a'i fod yn falch o weld ymateb da gan yr aelodau a gwerthiant da o lyfrau.

O ran gwella cysylltiadau gyda'r Eisteddfod, dywedodd ei fod wedi cynnal sgwrs gyda Dafydd Davies ynglŷn â chystadleuaeth y Gymdeithas. Dywedodd nad oedd cynnydd i'w adrodd ynglŷn â chysylltiadau gyda'r Coleg Cenedlaethol.

Diolchodd y Cadeirydd i Hywel Madog am ei waith a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at yr Eisteddfod nesaf. Tynnodd Hywel Madog sylw y byddai'n ffurfio pwyllgor lleol yn y Flwyddyn Newydd.

iv) Is-bwyllgor Llên Natur

Dywedodd Dominig fod cyhoeddi'r bwletin *Glas* wedi'i ohirio oherwydd salwch Duncan ond efallai y byddai'n bosibl aildechrau yn y Flwyddyn Newydd. Esboniodd fod Duncan yn disgwyl tri mis o adsefydlu yn Ysbyty Gobowen ond ei fod yn gallu ymateb i e-byst ac yn gobeithio gwneud ychydig o waith ar ddyddiaduron Owen Edwards.

Adroddwyd bod tudalen Weplyfr Cymuned Llên Natur yn boblogaidd iawn o hyd.

Diolchodd y Cadeirydd i Dominig am ei waith.

v) Trefnyddion Gweithgareddau

Adroddodd Gareth Wyn Jones fod rhaglen y De a'r Canolbarth ar gyfer mis Medi a mis Hydref yn weddol lawn. Dywedodd y byddai'n dosbarthu'r fwydlen ar gyfer cinio Nadolig yn Llangrannog ar yr ail ddydd Sadwrn ym mis Rhagfyr.

Dywedodd Iwan Roberts ei fod yn disgwyl cyhoeddi rhaglen y Gogledd Ddwyrain yn fuan a byddai Iona'n trefnu'r Daith Lobscows.

Adroddodd Hywel Madog fod rhaglen y Gogledd Orllewin yn ei le hyd at y Flwyddyn Newydd a byddai taith o gwmpas hen dafarndai Nefyn cyn y Nadolig a Thaith Lobscows ym mis Ionawr. Diolchodd i'r tîm trefnu a dywedodd ei fod yn falch o adrodd bod Dawi Griffiths yn fodlon parhau'n aelod o'r grŵp ar ôl ymddiswyddo o'r PG.

Dyweddodd John Griffith ei fod wrthi'n trefnu rhaglen Gŵyl Llydaw gyda Dominig a'i fod yn bwriadu cwrdd â Iona, Dominig a Kristin Berry. Esboniodd fod Nia Jones wedi cytuno i ffurfio côr i ganu yn ystod ymweliadau ag ysgol iaith Llydaweg ac eglwys.

Rhoddodd John wybod ei fod yn bwriadu trefnu teithiau bob dydd ac na fyddai "diwrnod i'r brenin".

Adroddodd John fod dau gwpl wedi tynnu'n ôl oherwydd newid yn yr amserlen a fyddai'n golygu teithio drwy'r nos. Dywedodd ei fod yn disgwyl ymateb y cwmni teithio i gais am ddychwelyd eu blaendaliadau.

Gofynnodd y Cadeirydd i Dominig a fyddai'n bosibl trefnu sesiwn ar-lein er mwyn i aelodau ddysgu ychydig o eiriau o Lydaweg cyn teithio. Cytunodd Dominig gan ychwanegu y byddai sesiwn hwyliog o gemau Llydaweg yn ystod y gwyliau.

vi) Golygydd y Cylchlythyr

Diolchodd y Cadeirydd i Gwyn Roberts am ei waith ac apeliodd am olynydd.

vii) Golygydd y Naturiaethwr

Dyweddodd Dafydd Lewis ei fod yn disgwyl dwy erthygl gan Gerwyn James gan gynnwys yr un fuddugol yng Nghystadleuaeth y Gymdeithas yn Eisteddfod y Garreg Las. Tynnodd sylw y byddai'n croesawu derbyn mwy o ddeunydd o ddyddiaduron Owen Edwards.

Mynegodd y farn y byddai'n ddymunol i'r Naturiaethwr fod ar gael ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Dywedodd Hywel Madog y byddai angen copïau digidol a fyddai'n golygu sganio llawer o rifynnau lle nad oedd ffeil pdf o'r fersiwn terfynol ar gael. Awgrymwyd cysylltu â Dafydd Tudur.

Dyweddwyd bod Goronwy Wynne yn gofyn am gopïau o rifynnau 1, 6 a 23. Ymgwymerodd Hywel Madog ag ymchwilio (**pwynt gweithredu**) ond dywedodd ei fod yn meddwl nad oedd rhifyn 1 ar gael ac nad oedd rhifyn 23 yn bodoli gan gyhoeddwyd dau rifyn 22.

viii) Dysgwyr

Diolchodd y Cadeirydd i Shelagh am drefnu sesiwn wobrwyo ddymunol yn yr Eisteddfod gan ddweud bod pawb wedi'i mwynhau. Dywedodd Shelagh fod un o'r enillwyr wedi ymaelodi.

Adroddodd Shelagh fod popeth yn barod ar gyfer cystadleuaeth 2027 a'i bod yn bwriadu ei hysbysebu drwy'r Coleg Cenedlaethol a *Lingo Newydd*.

ix) Merlin a Pl@ntNet

Dyweddodd John fod bron cant y cant o'r gwaith ar Pl@ntNet wedi'i gwblhau.

Esboniodd nad oedd fersiwn Cymraeg cyflawn o'r ap *Merlin* ar gael eto ac yr oedd rhaid cysylltu â'r cyhoeddwyr, Prifysgol Cornell.

Diolchodd y Cadeirydd i John am ei holl waith ar y ddau ap.

8. TREFNYDIADAU 3^{ydd} HYDREF A CHYFARFOD BLYNYDDOL 2026

i) Gofynion y siaradwyr, sleidiau af offer

Cadarnhawyd y byddai Dominig yn dymuno dangos lluniau. Cytunodd Iona i ofyn i Elizabeth anfon manylion cyswllt er mwyn i Jackie roi prawf ar daflunydd Neuadd Rhydypennau (**pwynt gweithredu**).

ii) Lluniaeth, llestri ayyb

Cytunwyd y byddai Iona yn dod â bisgedi, bara brith a/neu gacennau cri a byddai Jackie'n dod â choffi, te, llaeth a siwgr. Credwyd bod digon o lestri yng nghegin y Neuadd.

Dywedodd Iona fod Goronwy Wynne yn bwriadu mynychu'r Cyfarfod Blyneddol a chytunodd i ofyn a ddylid darparu bwyd iddo amser cinio (**pwynt gweithredu**).

9. SWYDDI GWAG

Tynnwyd sylw bod angen penodi Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd, Golygydd y Cylchlythyr, arweinydd a gweinyddwr y grŵp trefnu gwyliau ac Is-drysorydd i gymryd swydd y Trysorydd yn 2027.

Esboniodd John Griffith ei fod wedi cynnal trafodaeth gydag Elfyn Thomas ynglŷn â lleihau gwaith y trefnwyr gwyliau. Dywedodd Gareth ei fod yn fodlon arwain y grŵp. Gwirfoddolodd Shelagh ar gyfer y gwaith gweinyddu.

10. GŴYL 4x4 2027

Canmolodd y Cadeirydd y pedair taith yn ardal Mawddwy gyda stôr o hanes lleol ac esboniad o broblemau ffermio ar y llethrau. Cofnododd werthfawrogiad y cerddwyr o'r caffi bach yn Ninas Mawddwy. Dywedodd Hywel Madog ei fod wedi diolch i Arfon Hughes drwy e-bost. Cytunodd y Cadeirydd i gyfrannu erthygl i'r papur bro (**pwynt gweithredu**).

Atgoffwyd y PG bod Shelagh ac Eirian wedi gwirfoddoli i drefnu digwyddiad 4x4 yn Sir Gar ym mis Medi 2027. Awgrymodd Eirian trefnu teithiau ym Mhenrhyn Gŵyr oherwydd bod mwy o westai addas yn Abertawe nag yng Nghaerfyrddin. Cytunwyd i adael y trefniadau yn nwylo Shelagh ac Eirian.

11. GOHEBIAETH

- i) Derbyniad neges oddi wrth Rhys Parry, ar ran Ymgyrch Gwarchod Enwau Lloedd Cymru yn gofyn i'r Gymdeithas gefnogi cais i Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag arwydd dwyieithog "Coed Braich Melyn Wood". Tynnwyd sylw mai "Coed Pen Braich" yw'r enw cywir ac nid oes angen y gair "Wood". Yr oedd y PG o blaid cefnogi'r cais a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn cysylltu â'r Ysgrifennydd a llunio ymateb (**pwynt gweithredu**).
- ii) Tynnodd y Cadeirydd sylw bod Jackie wedi derbyn Tlws Aled Roberts am ei gwaith gwirfoddol gyda dysgwyr. Llongyfarchwyd iddi.
- iii) Adroddodd Shelagh na dderbyniwyd ymateb i'w llythyr at gyhoeddwy y llyfr *Taith Dyffryn Teifi* ynglŷn â diffyg fersiwn Cymreig.

12. UNRHYW FATER ARALL

- i) Tynnodd Iwan sylw bod 2,000 o ddilynwyr gan dudalen Weplyfr y Gymdeithas a 9,000 gan Gymuned Llên Natur. Awgrymodd ddefnyddio'r tudalennau i annog pobl i ymaelodi. Penderfynwyd postio neges yn tynnu sylw at gyhoeddiad y cylchgronau ym mis Chwefror a chynnwys linc at y ffurflen ymaelodi.
- ii) Cofiodd y Cadeirydd at Elen gan ddweud ei bod yn gwella'n raddoliii

iii) Dywedodd yr Ysgrifennydd fod Gwyn, Rob ac Elen wedi ymddiheuro ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Penderfynwyd nad oedd angen cynnal cyfarfod byr cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ac felly byddai cyfarfod nesaf y PG ar 19^{eg} Tachwedd 2026 i'w gynnal yn rhithwir.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ymuno â'r cyfarfod gan obeithio eu gweld yn y Gynhadledd undydd yn Rhydypennau ar 3^{ydd} Hydref..